



Ysgol Gynradd Henblas, Llangristiolus, Bodorgan,
Ynys Môn, LL62 5DR. ☎ 01248 723944
6602156_pennaeth.henblas@hwbcymru.net



5/9/2023

Annwyl riant/gwarcheidwad,
Croeso yn ol i'r plant a rhieni!

Tynnu lluniau:

Bydd lluniau ysgol yn cael eu tynnu gan gwmni Colorfoto ar ddydd Iau, Medi 21ain. Lluniau i holl ddisgyblion yr ysgol yn unig fydd rhain.

Sesiwn gwybodaeth darllen i rieni:

Pryd? Dydd Mercher Medi 20ed 3:15pm -4:30pm

Ble? Neuadd yr ysgol

Beth? Rydym yn tynnu eich sylw yn syth ar ddechrau'r flwyddyn i sesiwn rhannu gwybodaeth am ddarllen. Nod y sesiwn yw dangos sut ydym yn datblygu medrau darllen y disgyblion yn yr ysgol a sut allwch chi fel rhieni eu cefnogi yn y cartref. Bydd stondinau gwahanol yn y neuadd gan gynnwys Menter Mon, Llyfrgell y Sir, PIPYN, ac adnoddau gan y staff dysgu. Rydym hefyd yn falch iawn o gael Alison Cairns - sef dysgwr y flwyddyn yn Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023 gyda ni I rannu ei phrofiadau hi o ddarllen gyda'i phlant.

Ffair lyfrau Scholastic book fair

Bydd ffair lyfrau yn cael ei chynnal ar Ddydd Llun a Dydd Mawrth 18-19 o Fedi. Bydd posib i chi brynu llyfrau yn yr ysgol gan gwmni Scholastic.

Cinio ysgol

Bydd cinio am ddim i ddisgyblion blynyddoedd 0-5. Mae gofyn i ddisgyblion blwyddyn 6 barhau i dalu am ginio ysgol. ***Ond rydym newydd gael gwybod y bydd cinio am ddim i ddisgyblion blwyddyn 6 yn dechrau ar Medi 11.***

Tesco

Mae Grŵp Eco Ysgol Henblas wedi bod yn llwyddiannus yn ymgeisio ar gyfer Cynllun Grantiau Cymunedol Tesco. Nod ein prosiect yw trawsnewid ein gofod dosbarth (yr ystafell 'ddosbarth coch' y tu allan i'r dosbarth Meithrin/Derbyn) yn ardal tyfu bwyd i wneud cinio ysgol iach a darparu cynnyrch ffres i'r gymuned. Byddwch yn gallu pleidleisio dros ein prosiect yn y siopau Tesco **canlynol o wythnos gyntaf Gorffennaf 2023 tan ddiwedd Medi 2023.**

Tesco Bethesda High St Exp LL57 3NS

Tesco Bangor Extra LL57 4SU

Bydd y prosiect gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau ar draws ein rhanbarth yn derbyn £1,500, y prosiect yn yr ail safle £1,000, a'r trydydd safle £500. Felly, os ydym yn llwyddo i fod yn gyntaf yn y bleidlais, byddwn yn derbyn £1,500.

Gobeithiwn ddefnyddio'r arian grant er mwyn gosod system ddyfrhau ar gyfer eginblanhigion, er mwyn eu tyfu'n effeithiol yn yr 'ystafell ddosbarth coch' cyn eu symud i ardd hyfryd yr ysgol.

Dywedwch wrth eich teulu, ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion os gwelwch yn dda! Gobeithio gyda digon o gefnogaeth y byddwn yn llwyddo i dderbyn yr uchafswm o arian grant.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus. Ewch ati i bleidleisio ar gyfer Ysgol Henblas!

Meithrinfa Siwgwr Plwm Henblas

Mae mwy o wybodaeth am Meithrinfa Siwgwr Plwm Henblas (gan gynnwys yr ysgol feithrin a chlwb gofal tu hwnt i oriau ysgol) ar ein gwefan: <http://ysgolhenblas.org/ysgol-feithrin.html>

Dyddiadau HMS 2023-24:

Medi 1af

Medi 4ydd

Tachwedd 6ed
Rhagfyr 22ain

Clwb brecwast:

Noder, ni fydd newid i bris clwb gofal o fis Medi. Bydd y pris yn parhau i fod yn £1.25 (8:00-8:25a.m.)

Cyngor Ysgol

Byddwn yn gofyn i'r disgyblion ethol aelodau newydd i'r cyngor ysgol wythnos nesaf. Gofynnwn iddynt ystyried dros y penwythnos beth fuasent hwy yn hoffi ei wneud er mwyn gwella'r ysgol.

Gwefan yr ysgol

Am wybodaeth bellach am yr ysgol ewch i'n gwefan: <http://ysgolhenblas.org/>
School, website

For further information visit the school's website: <http://ysgolhenblas.org/>

Traffig ar dir yr ysgol

Rydym yn tynnu eich sylw at ein pryderon am draffig ar dir yr ysgol.

Yn y bore (8:00- 9:00):

1. Mae posib i geir droi mewn i'r ysgol a gollwng y plentyn/plant yn unig.
2. Yr unig geir sydd i barcio ar dir yr ysgol yw ceir staff.

Yn y prynhawn (3:00 – 3:30):

1. Nid oes dim car i ddod mewn ar dir yr ysgol. Bydd cones yn cael eu gosod i stopio bob car. Nid oes gan neb hawl i godi'r cones. (Yr unig gar sydd yn cael dod ar dir yr ysgol yw tacsï).
2. Nid oes neb i barcio ar gorneli y mynedfeydd:



Os nad oes lle i barcio ar y ffordd mae maes parcio ger neuadd y pentref ar gael.

Buaseu yn ddiolchgar iawn os wnewch chi plis basio'r wybodaeth bwysig yma ymlaen i unrhyw un sydd yn danfon eich plentyn yn y bore neu nôl eich plentyn o'r ysgol yn y prynhawn. Mae hyn yn bwysig iawn er mwyn sicrhau fod y drefn uchod yn gweithio.

Rydym yn ailadrodd hyn unwaith eto – er diogelwch ein plant.

Cwn

Nid oes hawl gan gwn i fod ar dir yr ysgol.

Yn gywir,
Huw Edward Jones
Pennaeth